
# Taith y Normaniaid: Cymru: Penfro




Camau:

1 Pont y Felin

2 Ogof Wogan

3 Priordy Cil-maen

4 Porth y Gorllewin

5 Eglwys y Forwyn Fair

6 Muriau'r dref

7 Porth y Dwyrain

8 Tŵr Barnard a muriau ogleddol y dref

Allwedd:

Llwybr y daith

Ffyrdd

Rheilffyrdd

Afonydd

Gorsafoedd Rheilffordd

## Cyflwyniad




Amser: 2.5 awr
Cychwyn: Pont y Felin
Gorffen: Pont y Felin
Milltiroedd: 2 filltir

Penfro oedd yr anheddiad Normanaidd pwysicaf yng Ngorllewin Cymru ac oddi yno y llwyddodd y Normaniaid i goncro nid yn unig wastadedd arfordirol Cymru ond hefyd diffeithdir Iwerddon. Wedi sefydlu'r castell ym 1093 (fel strwythur tomen a beili syml), tyfodd y dref, gan ymestyn allan ar hyd y gefnen hir o galchfaen sydd i'w gweld yno heddiw. Erbyn hyn mae adeilad carreg anferth y castell o'r drydedd ganrif ar ddeg i'w weld ym mhen draw'r gefnen, fel dwrn wedi'i gau ym mhen braich gnotiog a chyhyrog.

Er bod llawer o'r adeiladwaith Normanaidd wedi mynd, mae digon ar ôl i gydio yn y dychymyg. Mae Penfro'n enghraifft berffaith o fwrdeis-tref gaerog artiffisial lle byddai ymsefydlwyr wedi'u dwyn i mewn yno i weithio, gan fyw yn y tai a adeiladwyd ar hyd crib y gefnen galch-faen. Byddai disgwyl iddynt weithio i'r arglwyddi Normanaidd a hyd yn oed helpu i amddiffyn y dref. Yn gyfnewid am hynny, cyflwynwyd siarteri iddynt yn rhoi'r hawl iddynt gynnal ffeiriau a marchnadoedd.

Bydd cerdded o amgylch waliau tref Penfro'n rhoi i chi ddarlun hynod ddifyr o fywyd yn y Gymru Normanaidd a bydd taith gerdded braf ar ffurf cylch, ar dir cymharol wastad, yn cynnig adloniant i'r teulu cyfan. Mae'n daith sydd ychydig dros ddwy filltir o hyd a bydd yn cymryd ryw ddwy awr a hanner i'w chwblhau.

## Cam 1 – Llyn y Felin



Llyn y Felin

Dechreuwch eich taith gerdded wrth Bont y Felin, ychydig gannoedd o lathenni i'r gogledd o'r dref. Dyma safle Porth y Gogledd ar un adeg, ar waelod Feidr Dywyll, yn arwain i fyny i'r dref ei hun. Roedd dau borth arall yn arwain i mewn i'r dref hefyd, i'r gorllewin ac i'r dwyrain, yn strwythurau anferth a glowyd wrth iddi nosi er mwyn i'r bobl allu cysgu'n ddiogel yn eu gwlâu. Tynnwyd Porth y Gogledd i lawr ym 1820 er mwyn ei gwneud yn haws i gerti a bysus fynd i mewn i'r dref ac mae Pont y Felin yn croesi Llyn y Felin erbyn hyn, sef cilfach lanwol a amddiffynnai'r dref a'r castell yn y pen gogleddol.

Adeiladwyd y Felin, sef melin ŷd hynafol yn cael ei gweithio gan lif llanwol y gilfach, yn fuan iawn wedi sefydlu'r castell ac fe'i cyflwynwyd i Farchogion y Deml ym 1199. Dinistriwyd yr adeilad gan dân ym 1956 a dim ond y sylfeini sydd ar ôl erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'n lleoliad delfrydol ar gyfer gweld y castell a chei Penfro, a arferai fod yn brysur iawn ar un adeg.

Wedi dyfodiad y Normaniaid, mwynhâi'r harbwr bychan ond cysgodol hwn fasnach gwin ffyniannus gyda Ffrainc. O'r Canol Oesoedd tan yr ugeinfed ganrif, roedd calch, glo a chynnyrch amaethyddol arall yn cael ei symud drwy'r warysau sydd i'w gweld o hyd ar yr ochr ogleddol i'r afon. Y dyddiau hyn, maent yn cael eu defnyddio fel caffis a siopau.

## Cam 2 – Ogof Wogan



Ogof Wogan

Wrth edrych i fyny arno o'r tir islaw y mae'r castell yn fwyaf trawiadol. Mae ei waliau a'i dyrrau uchel fel pe baent yn ymestyn i fyny am byth. Mae'r castell fel rydym ni'n ei weld heddiw'n dyddio o'r blynyddoedd ar ôl sefydlu Iarllaeth Penfro ym 1138, pan benderfynodd yr Iarll cyntaf, Gilbert de Clare, ymestyn a gwella'r gaer. Parhawyd â'r gwaith gan fab Gilbert, Richard Strongbow, y gŵr cyntaf i goncro Iwerddon.

Dilynwch y llwybr gwastad o amgylch waliau'r castell, gan gadw'r gaer ar yr ochr chwith i chi. Dim ond ryw ychydig gannoedd o lathenni ydych chi o ganol y dref ond mae'r llwybr yn un tawel a gwledig.

Arhoswch i edrych ar Ogof Wogan, ceudwll calchfaen naturiol dan waliau'r ochr ogleddol hon i'r castell. Er gwaethaf protestiadau cenedlaethau di-ri o blant lleol, nid oedd hwn yn ddwnsiwn erioed, dim ond ogof naturiol a ddefnyddiwyd gan y Normaniaid fel stordy ac, o bosibl, fel cwt cychod. Arferai ffos redeg i lawr i'r afon, i sicrhau mynediad.

## Cam 3 – Priordy Cil-maen



Y Castell



Priordy Cil-maen

Ym mhen draw'r llwybr o amgylch y castell, croeswch Bont Cil-maen, safle i gei a melin Normanaidd arall, a dringwch yr allt fechan i gyrion trefol Cil-maen. Trowch i'r dde i fyny Teras yr Eglwys – allt fechan ond eithaf serth – ac ewch heibio Hen Neuadd Cil-maen. Mae'r neuadd hon yn dŷ preifat erbyn hyn ond yn wreiddiol roedd yn westy bach ar gyfer Priordy Cil-maen gerllaw. Mae rhan helaeth o'r hyn sy'n weddill heddiw'n dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif ond mae'r simnai Normanaidd gron, wych yn tynnu sylw'n fwy na dim arall ar yr adeilad o hyd.

Ewch ymlaen ar hyd Teras yr Eglwys i ben yr allt. Yma fe welwch Eglwys Priordy San Niclas a Sant Ioan. Arferai'r eglwys fod yn rhan ar un adeg o Briordy Cil-maen, sef Priordy Benedictaidd a gyflwynwyd i Abaty Seez yn Normandi ym 1098 ond roedd y safle'n cael ei ddefnyddio eisoes cyn i'r Normaniaid gyrraedd, gyda chymuned Gristnogol Geltaidd wedi bodoli yma ers blynyddoedd lawer. Mae bwtresi anferth ar wal ogleddol yr eglwys yn dyddio o oes Victoria ond maent yn parhau'n ddarnau trawiadol iawn o bensaernïaeth.

## Cam 4 – Y Castell


Y Castell

Dilynwch eich llwybr yn ôl i lawr Teras yr Eglwys (i lawr yr allt yn awr) ac ar draws Pont Cil-maen.  Cymerwch amser i sefyll yn llonydd a syllu ar draws y nant tuag at berl diamheuol Castell Penfro – ac yn wir, Penfro ei hun – a'r Tŵr Crwn gwych, a adeiladwyd gan Iarll William Marshall tua 1200. Mae'n un o'r enghreifftiau gwychaf o dŵr crwn ym Mhrydain, yn ymestyn i fyny i'r awyr i ryw 100 troedfedd ac yn parhau, hyd at ddiwedd ei oes filwrol bron, yn gwbl gadarn yn wyneb pob ymosodiad a gwarchae.

Wrth droed Westgate Hill y safai Porth y Gorllewin ar un adeg yn y dref. Gellir gweld gweddillion y porth yn wal un o'r tai ar y dde i chi. Ceir allt fer, serth, heibio Porth y Castell – y maes parcio ar y dde, a elwir yn Long Entry, oedd lleoliad gwreiddiol un o'r ddwy groes yn y dref ble cynhelid pregethau a marchnadoedd.  Safai'r llall y tu allan i dafarn yr Old Cross Saws yn rhan ddwyreiniol y dref.

## Cam 5 – Main Street


Main Street

Heibio'r castell, yn nhop Feidr Dywyll, gwelir eglwys blwyf y Forwyn Fair.  Dyma adeilad yn dyddio'n wreiddiol o'r 12fed ganrif ond y rhannau hynaf ohoni i oroesi yw'r ddwy ffenest o'r 13eg ganrif yn wal y de.

Cerddwch i lawr Main Street yn y dref. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladu'n dyddio o'r cyfnod Georgaidd neu Fictoraidd, gyda sawl un ohonynt â bwâu a arferai arwain at stablau yn y cefn.  Ochr yn ochr â Thŵr y Cloc, adeilad a arferai fod yn gartref i siop leiaf W H Smith and Sons ym Mhrydain, ceir clwb nos a siop. Hon oedd Ystafell Gynulliad y dref ar un adeg ac, yn ddiweddarach, safle Sinema Haggar. Roedd William Haggar yn wneuthurwr ffilmiau arloesol ac mae ei ffilm, "Life and Death of Charles Peace" - y ffilmiwyd rhannau helaeth ohoni gerllaw Doc Penfro - yn cael ei hystyried fel clasur ymhlith y ffilmiau mud cynnar.

Gall pant yn y ffordd y tu draw i Deras Orielton – a adnabyddir yn lleol fel Chain Back – fod yn lleoliad i ffos amddiffynnol gynnar ond nid oedd o unrhyw werth wedi i waliau'r dref gael eu hadeiladu. Y tu ôl i York Tavern gwelir adeilad canoloesol y dywedir i John Wesley ei ddefnyddio pan oedd yn pregethu yn yr ardal.

## Cam 6 – Muriau'r Dref


Muriau'r Dref

Trowch tua'r de, i lawr allt serth y New Way, a syllwch draw dros y rhan o Benfro a adnabyddir fel y Dref Oren.  Datblygiad yn y 19eg ganrif oedd hwn yn bennaf ond dyma hefyd yr ardal lle gwelid tanerdai, lladd-dai a gweithfeydd nwy'r dref. Mae nifer o'r adeiladau hyn yn sefyll o hyd.

Cerddwch tua'r dwyrain ar hyd gwaelod y llethr.  Yma fe welwch sawl adran o hen wal y dref ac un neu ddau o dyrrau amddiffynnol.  Mae gan un ohonynt gasibo'n dyddio o'r 19eg ganrif wedi'i adeiladu ar ei ben – nodwedd anghydnaws ond wedi'i adfer yn ddiweddar. Mae waliau'r dref wrth droed y gefnen ac mae manteision hyn yn amlwg. Byddai unrhyw fyddin yn ymosod yn gorfod dringo'r waliau hyn i ddechrau ac yna dringo i fyny'r llethr serth er mwyn cyrraedd lefel Main Street – gyda'r amddiffynwyr yn saethu i lawr arnynt drwy'r adeg o ddiogelwch yr adeiladau ar ben y bryn.

Gelwid y tir agored i'r de yn Gwmins ac roedd yn ardal a orlifwyd pan ddeuai'r llanw i mewn. Golygai hyn bod y dref wedi'i gwarchod ar dair ochr gan ddŵr – rhwystr arall eto fyth i unrhyw fyddin yn ymosod ei oresgyn.

Trowch i fyny Feidr Gwyddau, heibio tŵr amddiffynnol canoloesol sydd wedi'i gadw mewn cyflwr da, a dringwch y gefnen serth – dim rhy anodd ond mae'n rhaid i chi gymryd eich amser – yn ôl i Main Street.

## Cam 7 – Porth y Dwyrain


Y Castell


Porth y Dwyrain

Rydych yn Ward y Dwyrain yn awr, y rhan fwy newydd o'r dref ac ardal a ddinistriwyd gan y Pla Du yn ystod y blynyddoedd ar ôl 1349.

Arferai Porth y Dwyrain ym Mhenfro fod ar y naill ochr i'r stryd yn y fan hon, ar draws y fan a elwir yn Sgwâr Pen y Dwyrain erbyn hyn. Hwn oedd y porth mwyaf o blith tri phorth y dref, a'r un mwyaf arwyddocaol, ond cafodd ei ddinistrio ar orchymyn Oliver Cromwell ym 1648. Nid oes unrhyw ran o'r porth yn weddill erbyn hyn.

Mae nifer fawr o'r tai yn y rhan hon o'r dref yn rhai Georgaidd eu tarddiad. Gwelir eglwys Sant Michael, yr ail eglwys bwysicaf yn y dref, yma hefyd.  Roedd hon yn eglwys Normanaidd yn wreiddiol, gyda "thŵr corachaidd", ac fe'i hailadeiladwyd ym 1835 ac unwaith eto ym 1887.

## Cam 8 – Yn ôl i Lyn y Felin




Yn ôl i Lyn y Felin

Dilynwch y llwybr ar hyd y Coach House Inn a cherddwch i lawr yr allt ar ochr ogleddol y dref. Saif Tŵr Barnard ychydig i lawr y gefnen. Mae'n un o blith nifer o dyrrau amddiffynnol sydd wedi'u lleoli o amgylch y waliau mewn safleoedd strategol, fel corneli neu gyffyrdd y waliau, ac mae wedi'i adfer mewn ffordd briodol iawn.

Mae waliau'r dref wedi'u diffinio a'u cynnal yn dda ar yr ochr ogleddol hon. Mae eich taith gerdded yn eich arwain ar hyd Llyn y Felin, afon lanwol ar un adeg ac un o dri darn o ddŵr a oedd o gymorth i amddiffyn y dref. Ceir llawer iawn o fywyd gwyllt yma, yn cynnwys hwyaid, elyrch ac adar dŵr eraill.

Daw eich taith gerdded i ben yn ei man cychwyn, Pont y Felin, gyda gweddillion y castell yn sefyll yn dal a balch o'ch blaen.